YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1883. [RHIF. 23.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

YR ESGYRN SYCHION.

EZECIEL XXXVII.

PAN oedd Paul yn fachgen, fel bachgen yr oedd yn llefaru, ac fel bachgen yr oedd yn meddwl; mae yn dra thebyg nad oedd neb o honom yn wahanol i Paul yn hyn, ond ein bod ninau hefyd pan oeddym fechgyn, y rhai hyny o honom sydd wedi bod yn fechgyn, yn llefaru ac yn meddwl fel bechgyn. Anhawdd i'r plentyn fod yn ddim ond fel plentyn, a naturiol i'r plentyn fod y rhyfeddol yn tynu ei sylw. Mae yn caru byw yn myd y rhyfeddodau. Pwy nad yw yn cofio y swynion a deimlai'n blentyn wrth ddarllen y 1001 *Arabian Nights?* Cofia'r ysgrifenydd yn dda y modd y gweithiai ei ddychymyg uwchben yr hanesyn rhyfeddol yma yn nghylch yr "*esgyrn sychion.*" Yr oedd yr oll yn ddigon naturiol y pryd hwnw, ac nid oedd yr un holi yn bod, ond y cwbl yn cael ei gymmeryd fel yr oedd, ac ni theimlid un anhawsdra gan y dychymyg ieuanc i drosglwyddo yr oll ar y *canvas* meddyliol. Fel darlun yn benaf yr edrychem arno, ac yr oedd y darlun yn boddio y gyneddf ferniadol. "Bu swn, ac wele gynhwrf, a'r esgyrn a ddaethant yn nghyd, asgwrn at ei asgwrn." Dyma ddarlun hefyd o'r hyn fydd yr adgyfodiad yn ngolwg llawer heddyw ydynt wedi tyfu i fyny a chyrhaedd addfedrwydd oedran. Asgwrn at ei asgwrn—un o Forganwg at gorff yn Ngheredigion, neu un o Lundain at un arall yn New York; gan annghofio frawd, mai nid y corff a fydd yr ydwyt yn ei hau, &c., eithr Duw sydd yn rhoddi corff fel y myno efe.

Ond i ddechreu etto, nid plentyn o honom mwyach, a pha un a ydym yn gallach neu peidio, nid ydym yn cael yr un olwg ar bethau yn awr

a chynt. Ar lawer o ystyriaethau, nid yw yr olwg a gawn ar bethau yn awr mewn un modd mor hapus a'r olwg a gaem arnynt gynt. Mae y darllenydd yn gwybod am adgofion Tom Hood:

> I remember, I remember, the fir trees dark and high;
> I used to think their slender spires were close against the sky!
> It was a childish ignorance,—but now 'tis little joy
> To know I'm further off from heaven than when I was a boy!

Un o broffwydi y caethgludiad oedd Ezeciel. Trosglwyddwyd ef gyda Jehoiacim gan Nebucodonosor, cyn Crist 599, un flynedd ar ddeg cyn dinystr Jerusalem. Yn Nghaldea y traddododd ei holl broffwydoliaethau, ac ar lan afon Chebar. Yma y bu farw ei wraig, a dywed traddodiad iddo yntau gael ei osod i farwolaeth yma gan un oedd yn gaeth fel ei hun, am iddo geryddu ei eilunaddoliaeth. Yn y canol oesau fe ddangosid ei fedd gerllaw Bagdad.

Wrth gwrs, nid yw yr hanesyn yma i'w gymmeryd yn llythyrenol. Gweledigaeth yw a gafodd y proffwyd. Mae yn cael ei ddwyn "yn yspryd yr Arglwydd," ac yn cael ei osod yn nghanol dyffryn, a hwnw yn llawn o esgyrn. Arferai yr hen dduwinyddion ddysgu mai y dyffryn yw y byd, a'r esgyrn sychion yw yr hil ddynol yn ei gyflwr syrthiedig yn Adda; ond fe ddywedir wrth Ezeciel, "Ha, fab dyn, yr esgyrn hyn ydynt *dŷ Israel oll:* wele, dywedwch, Ein hesgyrn a wywasant, a'n gobaith a gollodd; torwyd ni ymaith o'n rhan ni." Yr Israeliaid yn nhir caethiwed—tŷ Israel wedi eu hamddifadu o'u rhyddid a'u hannibyniaeth yw yr esgyrn sychion. Dyma fel mae y proffwyd yn dychymygu eu cyflwr adfydus, maent yn ddifywyd, dienaid, dinerth, a'u gobaith wedi myned i golli. Tra parhao bywyd, fe bery gobaith, medd yr hen ddiareb, ond y maent hwy yn amddifad o obaith. Pa ryfedd eu bod wedi crogi eu telynau ar yr helyg! Mae y proffwyd fodd bynag yn gweled yn mhellach. Aiff tymhor y gauaf heibio etto, ac ar ei ol daw tymhor gwell. Ac ar ol pob ystorm daw hinon, ac ar ol y nos dywyllaf fe dora'r boreu wawr. Yma, gan hyny, ar lan afon Chebar, yn nhir y Caldeaid, mewn byd helbulus tost, fe glywir y llais calonogol "Wele fi yn agori eich beddau fy mhobl, codaf chwi hefyd o'ch beddau, a dygaf chwi i dir Israel." Esgyrn sychion—dyna oeddynt, ac y mae cig a giau yn dyfod arnynt, a chroen am danynt, ond nid oedd *dim anadl ynddynt.* Mae Ezeciel yn eu cael at eu gilydd, ond beth well heb yr anadl? Tebyg ydynt i'r dynion cŵyr yn arddangosfa Madame Tussaud, nid ydynt ond lluniau, dim ond *frame-work*—y telynau ar yr helyg, gobaith wedi diflanu. Dynion heb obaith, nid dynion mo honynt, mae elfen bwysicaf dynoliaeth yn absenol ynddynt. Ond gesyd yr anadl y galon eto i weithio. "O anadl, tyred oddiwrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw." Dyna lle'r oedd gweledigaeth! Bywyd y meirw yn dyfod i'w plith! Wedi cael eu calonogi, maent yn ddynion—y peirianwaith mawr wedi ei osod i weithio drachefn. Mae y waedd galonogol megys trydan yn gwefreiddio'r oll. Caersalem! adref, ac allan o'r caethiwed! Caer-

salem, dinas hedd, O na bawn yno'n byw! Mae y swn melus fel dwfr yn ngenau y sychedig.

Cyffelybiaethol yw yr hanes, ïe, ac y mae yn ddarluniad cywir o'r hyn a ellir ei weled yn mhob oes. O, esgyrn sychion Ezeciel, yr wyf yn dychymygu eu gweled yn awr. "Bywyd y meirw, tyr'd i'n plith!" Ti anadl, tyred etto o'r pedwar gwynt, a gosod fywyd ynom. Onid yw ein cymdeithasau yn syrthio yn fynych iawn i sefyllfa o esgyrn sychion? Enw o gymdeithas yn unig sydd yno, heb ddim bywyd, dim gweithgarwch. Gwneir cymdeithas i fyny o bersonau unigol. "Machgen i," meddai boneddwr wrth un o blant yr Ysgol Sul, "a ydyw eich tad yn proffesu crefydd?" Ateb y gwr bach oedd, mor *drue* ydyw o lawer o'n haelodau crefyddol: "Ydyw, mae e'n *proffesu* crefydd, ond ydyw e ddim yn *gweithio* llawer gyda hi." Cofier, fel mae'r aelodau, felly y mae'r gymdeithas. Os esgyrn sychion ydyw'r aelodau, beth ddysgwylir i'r gymdeithas fod? O na byddem yn ystyried pwysigrwydd yr hyn yr ydym yn ei broffesu fel aelodau crefyddol! A ddysgwyliwn ni fwynhau ffrwyth crefydd fywiol a ni heb erioed wedi gwneuthur dim tuag at sicrhau hyny? Pa beth bynag a hauo dyn, &c. Mae yn wir yn mhob cyssylltiad na ellir dysgwyl effaith neillduol ond fel canlyniad i'r achos priodol. I lawer y mae lle i ofni pan ddeuir i'w barnu na fydd dim gwell desgrifiad o'u cyflwr nâ'r geiriau—*dim ond y dail.* Dim ffrwyth! Nid oes yma ddim ffyddlondeb, dim ymdrech, dim gweithgarwch wedi bod. Gyfeillion anwyl, ymholwch â chwi eich hunain, a ydych ddim yn byw fel yma bob dydd ar lan afon Chebar, yn nhir y Caldeaid, mewn dyffryn lle nad oes dim daioni ynddo—dyffryn anial diffrwyth? Ac fel y mae haiarn yn hogi haiarn, ceisiwch yn nghyfeillach eich gilydd, i ymadfywio ac i adnewyddu yr yspryd o'ch mewn. Mewn undeb ac ymdrech cydweithredol mae nerth hyd y nod yn meusydd llafur crefyddol. Holwn ein hunain, pob un yn bersonol, a ydym yn cyflawnu ein rhan yn dda ai nad ydym. Os ydym yn teimlo fod genym le i wella, beth pe byddem yn dechreu ar unwaith. Os ydyw ein crefydd yn werthfawr yn ein golwg, oni ddylem wneuthur peth aberth er ei mwyn? Alla' i ddim llai nà meddwl nad yw y gwir grefyddol yn cael yma brofiadau mwyaf hapus bywyd. Yma yn oreu y mae holl elfenau y bywyd uwch yn gweithio, yma y mae tànau tyneraf y galon yn cael eu cyffwrdd, yma y ceir mwyaf o nerth i edyn ffydd a gobaith a chariad; a chan mai yn ysprydol y deuir i gyffyrddiad a'r ysprydol dygir ni yma yn agosach at bethau sylweddol a thragwyddol nag un man arall. Yma, oddiar safle uwchaf y bywyd dynol, o ben Nebo y ffydd Gristionogol cawn yr olwg gliraf ar diroedd hyfryd y Ganaan nefol—ardaloedd dedwydd y cydgyfarfod tragwyddol. Ac yn yr adgof melus nad oes fan yn yr holl greadigaeth lle daw nefoedd a daear, nefolion a daearolion, mor agos i gyffyrddiad â'u gilydd ag yn ymyl gorsedd gras, câned a gweddied yr eglwysi gyda'r hen Ddafydd Williams:—

O Arglwydd Dduw Jehofah, tro yma'th wyneb llon,
A doed griddfanau'n hyspryd i'th glustiau'r oedfa hon;
Doed sain telynau'r nefoedd i'n clustiau ninau lawr,
A gwna ni'n gydaddolwyr a'r nefol dyrfa fawr.

Dy hyfryd bresenoldeb, dysgleiried yn ein mysg,
Rho nerth i eiddil egwan lefaru'th nefol ddysg ;
Dy yspryd wnelo gynhwrf yn mysg yr "esgyrn sych,"
Cyrhaedded glust a chalon fel sain yr arian glych.

Duw, todda'r galon galed, a dryllia'r muriau pres,
Cyfoded Haul Cyfiawnder yn hyfryd yn ei wres ;
A nertha'r enaid ofnus sy'n methu d'od i'r lan ;
Cyssura'r rhai galarus, dyddana'r meddwl gwan.

T. C. U.

FY MEIRW.

Eu bod yn farw, yr hen gyfeillion cu,
Oent yma gyneu, o'r braidd 'rwy'n gallu credu ;
Ar lwybrau bywyd hyd yn hyn wyf fi,
A hwy nid ynt ond megys wedi blaenu.

Yn nhy ein Tad mae teg drigfanau lu,
Ond hwnt i allu'm llygaid gwan i'w gweled ;
Ei eiddo'r holl eneidiau—oll yn gu,
Ac ato i gyd y maent ryw ddydd i fyned.

A'u distaw weinidogaeth etto sy'
O fewn fy nghalon yn cael croesaw hyfryd,
Fel gynt pan ar y ddaear gyda mi
Cydrodient lwybrau hoffus, hapus bywyd.

Eu bywyd eiddo bythol imi yw ;
Yr hyn o'ent imi yma—f' hen gyfeillion—
Mae wedi gadael arnaf argraff byw
Ar fyth annileadwy lechau'r galon.

Fy eiddo ydynt, fel ni'm torir mwy
Oddiwrthynt, na chan amser na chan angau ;
I gariad rhoddodd Duw i'w cadw hwy
Yn feddiant iddo trwy dragwyddol oesau.

F. L. Hosmer yn "Unity."

Ysgrifenodd Rector Merthyr lythyr i'r *Daily News* yn ddiweddar yn gwresog bleidio dadgyssylltiad yr Eglwys yn Nghymru oddiwrth y wladwriaeth.

BYWYD YR IESU.

Gwers 10.—*Darllener Luc xviii. 9—14, xv. 11—32; Testyn, Luc xv. 18—20.*

Mae dammeg y Mab Afradlawn mor llawn o'r doethineb ysprydol dyfnaf fel mae yn fynych yn anhawdd i wybod pa un o'r gwersi amrywiol sydd yn fwyaf teilwng o sylw; ond mewn cyssylltiad a bywyd yr Iesu rhaid ei chymmeryd fel yn gosod allan agwedd y "pechaduriaid" ar un llaw, a'r Phariseaid ar y llaw arall at deyrnas Dduw. Yr ydym yn cael fod y gwrthwynebiad a gyfarfyddodd yr Iesu, yn y lle cyntaf, yn dyfod yn gyfangwbl oddiwrth ddosparth crefyddol ei gydwladwyr, ac nid yw yn beth hollol hawdd i ddeall sut oedd y ffaith ei fod ef yn pregethu moesoldeb uwch, a ffydd mwy ysprydol nag oeddent hwy yn wybod am danynt o'r blaen yn deffroi gelyniaeth mor chwerw. Paham na ddarfu i'w efengyl ogoneddus gynnyrchu argraff wahanol arnynt? Paham y gadawsant i'r "bobl gyffredin," yn neillduol "y pechaduriaid" i'w groesawi ef fel proffwyd mawr a'i ganlyn ef fel ei ddysgyblion? Ond yr oedd yn gwbl yr un fath pan y darfu i John Wesley ddechreu ei waith; paham y cafodd ef a'i ganlynwyr eu herlid, a'u troi allan o'r Eglwys Sefydledig, a'u gorfodi, yn erbyn eu hewyllys, i fod yn Ymneillduwyr? Paham y darfu i lwyddiant boreu Methodistiaeth gymmeryd lle braidd yn gyfangwbl yn mhlith pobl oeddent wedi bod yn "bechaduriaid," ac yn fynych o gymmeriad digon llygredig. Mae'r ateb yn ymddangos yn gyffelyb yn y ddau achos. Yr oedd y Phariseaid yn hollol foddlawn â hwy eu hunain a'u cyfundrefn, a'r hyn a wrthwynebent hwy yn fwy nâ dim arall oedd, fod rhywun yn dyfod yn mlaen ac yn ceisio dangos mor anfoddhaol oedd eu buchedd a'u haddysg. Rhoddent drafferth fawr iddynt eu hunain wrth gadw holl fanylion y gyfraith, a phob peth a orchymynid gan draddodiad y tadau; cymmerent ofal fod y bobl yn gyffredin yn eu gweled yn gwneyd hyn; ac edrychent fel tal am hyn am lawer o anrhydedd oddiwrth y bobl, heblaw dysgwyl fod Duw yn cael ei foddloni yn fawr gan eu gwaith. Ac mae y rhai ydynt yn hollol foddlawn a hwy eu hunain, fel rheol yn galed ar bawb nad ydynt fel hwy eu hunain, ac o braidd y gallant weled unrhyw rinwedd mewn pobl nad ydynt yn cydffurfio ag arferion eu cymdeithas hwy. Felly yr oedd hi gyda'r Phariseaid. Yr oeddent yn hyderu arnynt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn diystyru ereill.

Yr oedd ynte, y siomedigaeth chwerwaf iddynt hwy i weled y proffwyd newydd yma o Nazareth yn gosod i fyny gyfiawnder uwch a dyfnach nâ'r eiddynt hwy, ac i gael allan fod ei allu yn lledaenu yn mhlith y bobl, dros y rhai nid oeddent hwy erioed wedi ennill unrhyw ddylanwad er daioni. Gyda digllonedd gwawdus cyhuddent ef o geisio bod yn boblogaidd, trwy gydffurfio a chwaeth y werin; yr oedd yn bwyta gyda phechaduriaid os cadwent fwrdd da; yr oedd yn ddyn glwth ac yn yfwr gwin! Gyda diystyrwch safent hwy draw er mwyn

peidio llawenhau o herwydd adferiad defaid colledig Israel, ac ni chyfranogent o lawenydd y nefoedd o herwydd fod un pechadur wedi edifarhau.

Mae y dammegion a ddetholwyd i ddarllen yn rhoddi esiamplau tarawiadol o'r sefyllfa yma o feddwl; ac mae hanes y Mab Afradlawn hefyd yn ein cynnorthwyo i sylweddoli yr hyn a deimlai'r Iesu gyda golwg ar y berthynas rhwng y pechadur a'i Dduw. Cymmered yr athraw ofal nad yw y dosparth yn cymmeryd y ddammeg, fel hanes dyn ieuanc, yr hwn, ar ol myned ymaith a gwario ei holl arian wrth fwynhau ei hun, oedd yn falch i ddyfod yn ol i'w gartref cyssurus cyn gynted ag y dechreuodd fod mewn eisieu. Y mater i alw ato yw *edifeirwch trwyadl* yr afradlawn, fel mae yn cael ei ddangos yn ei waith yn gofyn am fynediad i mewn i'w hen gartref fel gwas cyflog, gan mor ddwys y teimlai ei annheilyngdod i gael ei dderbyn fel mab. Nid oes dim yn eisieu ond yr edifeirwch didwyll yma i sicrhau maddeuant, ac i dynu allan gariad Duw; dyma beth yw dyfod yn fyw drachefn ar ol bod yn farw, yr hyn sydd yn amgylchiad mor addas ar gyfer llawenydd. Ond nid oedd y gwas (adnodau 26, 27,) yn deall hyn; meddylia ef fod y llo pasgedig wedi ei ladd yn unig oblegyd fod y tad wedi derbyn ei fab i'w gartref yn iach ac yn ddyogel; ac yr oedd y mab henaf yn deall y mater yn llai nâ'r gwas. Yr oedd ei feddwl ef mor llawn o'r teimlad o'i deilyngdod ei hun, ac o bechadurusrwydd mab ieuengaf ei dad, fel nad oedd lle o gwbl yn ei galon ef i unrhyw lawenydd o herwydd adferiad ei frawd. Nid yw yn syndod na chafodd yr Iesu ond ychydig ddysgyblion yn mhlith y Phariseaid.

Gofyniadau.

1. Pa beth a ddysga dammeg y Mab Afradlawn, a'i hystyried mewn cyssylltiad a bywyd yr Iesu?
2. Pa beth oedd bai mawr y Phariseaid, a'u gwnaeth mor anfoddlawn i ddysgu oddiwrth yr Iesu, ac mor galed ar bechaduriaid?
3. Adroddwch ddammeg y Pharisead a'r Publican.
4. Yn mha fodd mae dammeg y Mab Afrawdlawn yn gosod allan y berthynas rhwng yr Iesu a'i wrandawyr?

Gwers 11.—*Darllener Matth. xv. 1—20; Marc vii. 1—5 neu 1—23: Testyn Matth. xv. 10—11.*

Daeth yr amser o'r diwedd—yn debygol ar ol i'r Iesu fod wedi pregethu am rai misoedd—pan yr oedd sylw prif ddynion Jerusalem wedi ei dynu at y symmudiad hwn yn Galilea; a meddyliwyd y byddai yn gymhwys i rai o honynt i fyned i lawr yno ac edrych i mewn i'r mater. Felly darfu i rai o'r ysgrifenyddion a phrif Phariseaid y brif ddinas, y rhai oeddent mor fanwl i gadw y gyfraith Iuddewig gyssegredig, a'r holl reolau oeddent wedi tyfu i fyny oddiamgylch iddi, fyned i weled

beth oedd yr Iesu yn ddysgu, ac a oedd ei ddysgyblion yn fanwl yn ufuddhau eu holl orchymynion hwy. Cawsant allan fod yspryd y grefydd a bregethai'r Iesu yn hollol wrthwynebol i'r eiddynt hwy; yr oedd yn rhaid i un neu'r llall i roddi ffordd. Yr oedd eu crefydd hwy yn eu hanfod yn gynnwysedig mewn cyflawnu nifer aruthrol o ddefodau dibwys oeddent i gael eu cadw heb unrhyw reswm drostynt, heblaw eu bod wedi eu gorchymyn. Yr oedd crefydd yr Iesu yn ei hanfod yn gynnwysedig mewn sefydlu perthynas rhwng dyn a Duw, yn yr hon mae dyn yn blentyn ffyddiog ac ufudd, yn gwrandaw ar y llais dwyfol yn ei enaid; a Duw yn Dad cariadlawn yn y nefoedd, yn siarad yn wastadol wrth ei blant, yn dweyd wrthynt eu dyledswydd, ac yn eu cynnorthwyo i'w gyflawni. Byddai crefydd fel hon, ar ol iddi unwaith fyned i mewn a meddiannu calonau dynion, yn sicr o ddinystrio defodaeth wag y Phariseaid; a darfu iddynt hwy, wrth weled hyny, ddechreu eu gwrthwynebu a'u holl allu. Gofynent i'r Iesu paham nad oedd ei ddysgyblion yn cadw traddodiadau yr hynafiaid, ac fel prawf-gwestiwn, paham nad oeddent yn golchi eu dwylaw cyn ac ar ol bwyta. Yn awr, rhaid i ni gofio mai nid mater o lanweithdra oedd mewn dadl; mae yn beth pwysig iawn i olchi nid yn unig ein dwylaw, ond hefyd ein holl gorff. Mor fynych ag y maent yn gofyn hyny; mae glanweithdra yn yr ystyr yma yn cael ei ystyried yn ail beth i dduwioldeb; ond mae yn rhywbeth hollol wahanol oddiwrth yr hyn ag y meddyliai y Phariseaid am dani. Yr oedd eu cyfraith a'u traddodiad yn crybwyll llawer o bethau a wnaent ddyn "yn aflan;" pe byddai trychfilyn marw yn syrthio arnoch; pe byddech yn digwydd cerdded dros fedd, neu yn taro yn erbyn cenedl-ddyn yn y farchnad, neu pe byddai rhyw un o fil o bethau ereill yn digwydd, buasai hyn yn eich gwneyd yn aflan yn ei hystyr hwy; ac mae'n rhaid i chwi olchi cyn bwyta, ac mae pedair pennod gyfan yn un o'r deddf-lyfrau yn cael eu cymmeryd i fyny i ddangos sut mae'r golchiad yma i gael ei wneyd yn iawn. Nid yw'r Iesu yn ymostwng i ateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn paham nad oedd ei ddysgyblion yn cadw yr holl reolau hyn, ond mae'n troi at yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, ac yn gofyn paham maent hwy yn troseddu gorchymyn Duw trwy eu traddodiad. Yr oedd yn ddeddf o eiddo Duw fod plant yn anrhydeddu ac yn parchu eu rhieni, ac wrth gwrs yr oedd hyn yn ei gwneyd yn ddyledswydd ar y dyn cyfoethog i gynnal ei rieni oeddynt yn dlawd; ond yn ol y "traddodiad," nid oedd gan y mab ond dweyd am ei eiddo, "Rhodd (gyssegredig) yw," ac nid oedd arno mwyach un ddyledswydd tuag atynt. Yr oedd yr eiddo wedi ei gyflwyno i'r Deml, ac fe fyddai'n gyssegr-yspeiliad i'w gymhwyso at gynnaliaeth mam oedranus neu dad analluog! Y fath ragrith!

Yr oedd ateb yr Iesu yn ddigon i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid; nid oedd cymmod i fod mwy; a'i unig obaith ef oedd mewn appel uniongyrchol at y bobl, a chan droi tuag atynt mae yn arddangos yn eglur yr egwyddor fawr nad oes gan bechod gwirioneddol, a halogrwydd moesol ddim i'w wneyd a bwyta ymborth, ond mae yn perthyn i'r teimladau sydd o'n mewn, ac i'r gweithredoedd drwg sydd yn gynnyrch teimladau drwg. Mae hyn yn ymddangos mor naturiol i ni, fel nas

gallom braidd sylweddoli y buasai llawer o'r Iuddewon yn ei ystyried yn heresi ddinystriol. Ond felly yr oedd; mae ei deddf hwy yn fwyaf manwl gyda golwg ar yr hyn a ddylid fwyta a'r hyn na ddylid; ac hyd y dydd hwn nid oes un Iuddew a gyffyrdda a chig mochyn, nid oblegid y meddylia ei fod yn afiach, ond oblegyd fod y gyfraith yn ei wahardd. Yn yr un modd pan y dywedai'r Iesu, "nid yr hyn sydd yn myned i mewn i'r genau sydd yn halogi dyn, ond yr hyn sydd yn dyfod allan." Yr oedd hon yn egwyddor newydd, ac nis gallai hyd y nod ei ddysgyblion ei hun ei deall heb esponiad llawn. Fe all eu hwyrfrydigrwydd hwy i amgyffred natur hanfodol pob pechod ein cynnorthwyo ni i sylweddoli yr anhawsderau a gyfarfyddent a'r Iesu, yn gystal a gweled mor unig oedd ei sefyllfa, ac mor sicr yr oedd llawer o'r iaith a'r ymddygiad i gael eu camddeall a'u gwyrdroi yn adgofion ei ganlynwyr, cyn i'r Efengylau gael eu hysgrifenu. Nid i'r "doeth a'r deallus," y dysgedig a'r cwrteithiedig, ond i "fabanod" syml, y darfu i wirioneddau Cristionogaeth gael eu dadguddio gyntaf.

Yr ydym wedi gweled yn awr sut y daeth yr Iesu, ar ol hir barotoad i'w waith, yn mlaen i gario allan genadwri y Bedyddiwr ac i bregethu teyrnas nefoedd oedd yn neshau. Yr ydym wedi sylwi ar ysprydolrwydd derchafedig; gras a melusder ei efengyl, ac wedi gweled y bobl gyffredin yn gwrandaw arno gydag hyfrydwch, ac yn edrych arno fel proffwyd mawr; mae "y pechaduriaid" yn neillduol yn cael eu hennill gan nerth ei eiriau, ac yn cael eu trin ganddo gyda charedigrwydd a serch na ddangoswyd o'r blaen gan unrhyw broffwyd neu ddyn santaidd. Ond nid yw ei ddylanwad wedi cyffwrdd a'r Phariseaid, pobl grefyddol selog yr amser; maent hwy yn rhy foddlawn ar eu cyfiawnder defodol eu hunain, a daethant yn raddol i fynwesu tuag ato y teimladau mwyaf chwerw a gelyniaethus. Dygodd hyn oddiamgylch gyfrwng ag y cawn ei gymmeryd i fyny yn y wers nesaf.

Gofyniadau.

1. Pa beth oedd gwir ystyr cwestiwn y Phariseaid gyda golwg ar fwyta a dwylaw heb eu golchi?
2. Sut y darfu i'r Iesu ddangos mor ddiwerth oedd eu traddodiad?
3. Gosodwch allan yn eich iaith eich hun ei egwyddor yn nghylch y pethau sydd yn halogi dyn.
4. Nodwch rai o nodweddion ei Efengyl. Pwy yn neillduol oedd yn eu dylanwadu?

M. S.

Barna Dr. Rees, Abertawe, nad oes yn yr holl fyd brawf mwy tarawiadol nag a geir yn Nghymru fod sefydliad Eglwysig yn beth diangen. Dechreuodd annghydffuriaeth 250 mlynedd yn ol, a cheir yn bresenol dros 4000 o gynnulleidfaoedd annghydffurfiol yn Nghymru. Mae Cymru yn addfed am ddadgyssylltiad, ond nid dadgyssylltiad heb ddiwaddoliad.

DYLEDSWYDDAU CYMDEITHASOL.

Dyledswyddau Cymdeithasol ydynt y rhai sydd ddyledus oddiwrthym at ein cyfeillion a'n cymmydogion. Mor ddymunol yw cyflwr y dyn hwnw sydd yn unig wrtho ef ei hunan, ac heb gymhorth a chydymdeimlad bodau ereill fel ef ei hunan. Y mae Duw, ein Tad nefol, wedi ein huno a'n gilydd â rhwymau tyner. Y mae genym gyfeillion a pherthynasau ydym yn eu caru a'u parchu, a'r rhai sydd wedi bod mor garuaidd i ni fel y mae yn rhwym o ymddangos yn beth pleserus a dymunol pan y mae yn ein gallu i'w gwasanaethu yn unrhyw fodd. Ond y mae ein dyledswyddau cymdeithasol yn cyrhaedd yn mhellach nâ chylch ein cyfeillion a'n perthynasau, ac yn cynnwys pob perthynas sydd yn ein huno ni a'n cydgreaduriaid.

Yn awr, y mae rheol syml iawn i'w chael, yr hon allai fod o wasanaeth mawr i ni er ein galluogi i ddeall y dyledswyddau cymdeithasol yma, pe cymhwysem y cyfryw atom ein hunain a'u dysgu yn drwyadl. Dyma hi, "Fel y dymunech i ereill ymddwyn atoch chwi, felly ymddygwch chwithau at ereill," hyny yw, dylem ddychymygu ein hunain yn lle neu yn sefyllfa ereill, a meddwl ynom ein hunain pa fodd y carem ni iddynt hwy i ymddwyn atom ni, ac yna i ymddwyn atynt hwy yn ol hyny. Y mae yn y rheol yma gymhwysiad helaeth iawn. Pe y deallem a phe credem hi yn drwyadl, byddai yn dylanwadu arnom yn y fath fodd ag i'n cyfarwyddo yn briodol yn ein trafodaethau â'r byd gyda theimlad o gyfiawnder. Gall rhai amgylchiadau godi, pan yr ymddengys y buasem yn ymgynghori â'n lles ein hunain oreu wrth wyro oddiar lwybr cul a chymhwys uniondeb. Ond pe y buasai dynion ereill i weithredu yn y modd yma atom ni, buasem yn teimlo yn y man ei fod yn gamsyniol; y mae yn amlwg, gan hyny, na ddylem ni gyflawnu ein hunain yr hyn ydym yn ei gondemnio yn ereill.

Y mae yn angenrheidiol i ni gofio mai y dyledswyddau cymdeithasol cyntaf a mwyaf pwysig ydyw y rhai sydd yn dal cyssylltiad uniongyrchol a'n bywydau dyddiol, yn mha gylch bynag y gallwn fod yn troi ynddo yn y byd sydd yr awrhon. Y mae rhai dynion yn edrych yn mhell tuallan i gylch eu bywyd dyddiol, ac yn galaru oblegyd drygau nad yw yn eu gallu i'w symmud ymaith, tra y maent yn annghofio cyflawnu y daioni a symmud ymaith y drygau sydd yn gorwedd wrth eu drysau o flaen eu llygaid, ac feallai yn eu calonau eu hunain. Y mae hyn, bid sicr, yn gamsyniol. Dylem fod yn gariadus a haelionus at ein brodyr a'n chwiorydd, ein cyfeillion, ein cymdeithion a'n cydysgolheigion, a dysgu trwy gariad a chydymdeimlad â hwynt, i fod yn dyner a boneddigaidd yn ein hymddygiad at ddyeithriaid. Y mae pob calon wir ac ardderchog yn rhwym o ddymuno cymmaint ag sydd bossibl i wneyd anwybodaeth, dyoddefaint a'r tlodi corfforol a meddyliol sydd yn ffynu yn y byd yn llai. Y mae pob peth ydym ni yn fwynhau yn y byd yma yn deilliaw oddiwrth ddaioni, trugaredd, a hunangynhyrfiol gariad y Tad mawr o'r nef, ac nid oes un ffordd well i amlygu ein diolchgarwch i Dduw am y cyfryw, na thrwy wneyd pob ymdrech yn ein gallu i gynnorthwyo â bendithio ein cyd-ddynion.

O.

Y GWANWYN.

Mi geisiaf blethu canig i'r bywiog wanwyn hardd,
Mor ddestlus ag y medraf, fel un heb awen bardd;
Pa ddyn a fedra bwyso y dymunoldeb sydd
I'w gael yn natur heddyw, rhwng cangau tirf y gwydd?

Y coed oe'nt gynt yn welw, y'nt heddyw'n hardd eu lliw,
Gan flodau peraroglus, yn lloni'r enaid byw;
Pwy ond y Duw ei hunan a wyr mor anwyl yw
Cysuron hoff y gwanwyn, gan bob creadur byw?

Yr 'hedydd bach a gana ar uchel risiau'r nef,
Fel pe am gludo'i glodydd i'r Hwn a'i creodd ef;
A'r hyfryd gor asgellog sy'n canu melus gerdd,
A'r fwyalch fel yn llywydd ar frig y gangen werdd.

O! Dduw rho nerth i deithio i wlad y gwanwyn gwyrdd;
Lle bydd dy hoff ffyddloniaid yn hapus oesau fyrdd;
Dan gysgod pren y bywyd fydd byth mewn gwyrddlas ddail,
A hyfryd flodau cariad heb fachlud mwy mo'u haul.

Trebanos. D. W. Davies.

BRIALLI.

"A primrose by the river's brim,
A yellow primrose was to him,
And it was nothing more."—*Wordsworth.*

Mae y Pregethwr wedi dywedyd nad "oes dim newydd dan haul." Wn i ddim beth feddylia'r darllenydd, ond yr wyf fi yn cael fy nhueddu i gredu pe buasai'r Pregethwr byw heddyw ac wedi darllen hanes y cyfarfodydd a gynnaliwyd gan y Toriaid Ebrill 19eg, na fuasai erioed wedi gofyn "A oes dim y gellir dywedyd am dano, Edrych ar hwn, dyma beth newydd? efe fu eisoes yn yr hen amser o'n blaen ni." Mae wedi ei adael i Doriaid y dyddiau diweddaf yma i weled yn y "brialli" argraffiad newydd o'u catecism hwy. Cyfaddefwn yn rhwydd fod rhy fach o ddarllen ar y blodau, rhy fach o "ystyriaeth" yn cael ei roddi i "lili y maes." Mae y brialli yn hardd ac nid yw yn syndod fod Disraeli (Iarll Beaconsfield) yn hoff o honynt; ond y mae wedi ei adael i addolwyr Disraeli i weled fod dim ynddynt yn bleidiol i Doriaeth yn fwy nâ Rhyddfrydiaeth. Fe fwriedir yn y dyfodol mae'n debyg i gynnal y bedwaredd ar bymtheg o Ebrill fel dydd gwyl Sant Benjamin, ac fe ddysgwylir fod hoffwyr y gwron yn cadw y dydd mewn coffadwriaeth trwy wisgo brialli yn nhwll botwm y got.

Boed felly, os mynant; a gwisged y Rhyddfrydwyr y brialli am eu bod yn caru y blodeuyn; a cheisient sylwi arnynt yn fanwl. "Ystyriwch *lili* y maes," medd y gair, ac y maent yn teilyngu sylw—mor hardd, mor deg! "Ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." Nid y lili chwaith, ond yr *anemone* feallai; nid oes dim sicrwydd. Nad beth am hyny, ystyriwn brydferthwch ac arderchogrwydd y blodau.

Dosparthir defnydd i'r organaidd a'r anorganaidd, a'r organaidd etto i'r llysieuaidd a'r anifeilaidd, a'r llysiau i'r rhai yn dwyn blodau a'r rhai na ddygant flodau. Y blodeuyn yw y rhan adgynnyrchiol o'r llysieuyn ac mae pwrpas i'r harddwch a phwrpas i'r arogl, a hyny yw tynu sylw y trychbryf er helpu ffrwythloniad. Y prif elfenau yn nghyfansoddiad llysieuyn ydynt Oxygen, Hydrogen, Carbon a Nitrogen. Y planhigion diflodeu yw y rhedyn, mwsogl, gwimon, &c. Mae'r planhigion yn puro'r awyr, yr hwn sydd yn barhaus yn cael ei wneuthur yn anaddas i'w anadlu trwy fod anifeiliaid wedi ei anadlu yn barod. Darparant fwyd hefyd i anifeiliaid ac i lawer gysgod ac amddiffyniad. Rhwystrant y dwfr i godi'n darth yn rhy fuan ar ol y gwlaw; a rhoddant i ddyn feddyginiaeth a moddion tân, &c.

Mae organau y planhigyn yn bedwar: y gwreiddyn, y gorsen, y dail, y blodeuyn. Dosparthir y blodeuyn hefyd, os bydd yn gyflawn, i bedair rhan. Gelwir pob rhan yn *whorl*, y rhanau yma ydynt—Calyx, Corola, Stamen, Pistil. Nid yw pob blodeuyn yn cynnwys yr oll o'r rhai hyn. Y *Calyx* yw y rhan hono o'r blodeuyn sydd nesaf at y gorsen, ac yn y cyffredin mae o liw glas. Y *Corola* yw y whorl nesaf, a hwn fynychaf yw yr un feddyliwn ni wrth flodeuyn, hwn yw y rhan liwiedig. Gelwir rhanau y calyx yn *sepals* a rhanau y corola yn *petals*. Y whorl nesaf yw y *Stamens* y rhai ydynt yn gwahaniaethu mewn rhif. Seiliai Linnaeus ei 24 dosparth ar rifedi, sefyllfa, a chyssylltiad perthynasol y stamen. Rhanau y stamen ydynt, y *filament*, yr *anther*, a'r *polen*. Y cyntaf a elwir felly am ei fod yn debyg i damaid o edeu, yr *anther* yw y clopa fel eiddo pin, a'r *polen* yw y dwst ar yr anther. Y dwst yma yw yr hyn sydd i gael ei drosglwyddo trwy offerynoliaeth y wenynen, neu aderyn, neu ryw greadur bychan arall ar y pistil er ffrwythloni y blodeuyn. Y *pistil* yw y whorl nesaf i mewn ac yn cynnwys yr *ovary*, y *style* a'r *stigma*. Yn y cyffredin mae math o wlybwr ar y stigma sydd yn dal y *polen*, yr hwn a drosglwyddir ar hyd y *style* (neu'r golofn) i'r ovary, lle mae'r had. Cofier etto y pedwar whorl, y *calyx*, y *corola*, y *stamen*, y *pistil*, a sylwer ar y rhai hyn, er enghraifft yn y fuchsia (dropper); gelwir blodeuyn yn *gyflawn* os yn cynnwys yr holl ranau yma. Ceir y blodeuyn yn fynych yn *annghyflawn*, hyny yw â rhyw ran yn eisieu. Mae dosparth o lysiau a ffrwythlona trwy offerynoliaeth y gwynt yn unig, ac mae blodau y rhai hyn fel y gellid dysgwyl yn amddifad o arogl ac o liwiau dysglaer, er enghraifft, y poplar, yr helygen, y dderwen, &c.

Mae yn perthyn i'r brialli ddau fath o flodau, y rhai nid ydynt byth i'w cwrdd ar yr un planhigyn. Cymmered y darllenydd y drafferth o sylwi ar sefyllfa y rhanau mewnol. Caiff weithiau y stamen ar y

top a'r stigma i lawr yn isel a phryd arall y stigma ar y top a'r stamen yn isel, tra mae y mél ar y gwaelod yn mhob un o'r ddau. Ceisied ystyried y paham o hyn ac yna ni ellir dywedyd am dano fel am Peter Bell a llawer Peter arall:

Brialli'n tyfu'n ymyl dw'r,
Brialli melyn oedd i'r gwr,
Brialli a dim ond hyny.

S.

FRITZ—ARWR BYCHAN SWITZERLAND.

Amser maith yn ol, ar un o fynyddau mawrion Switzerland brydferth, fe drigai bachgen bychan o'r enw Fritz. Digon tebyg eich bod wedi gweled darlun o dŷ Swiss cyffelyb i'r hwn y trigianai Fritz ynddo. Yr oedd wedi ei adeiladu ar hanner y ffordd i fyny y llethr ar glogwyn a ymestynai allan, lle nas gallai y mynyddoedd tragwyddol o ia ddim o'i gyrhaedd, pan oeddent yn rhuthro yn y gwanwyn i lawr i'r dyffryn obry. Yr oedd ffenestri bychain a grisiau digon cyntefig yr olwg yn perthyn i'r tŷ; ac ar y nen yr oedd ceryg mawrion i'w gadw yn ddianaf rhag stormydd gerwinol y gauaf. Yr oedd Fritz yn hapus iawn yn yr hen dŷ ceryg. Dichon ei fod yn ei garu yn well ná'i frawd tal, cryf, na'i chwaer, oblegyd yr oedd ef yn gorfod aros ynddo yn hwy ná nhw, ac yn gorfod hercian drosto ar ei ffyn baglau, a myn'd i'r man lle'r oedd y da a'r defaid wedi eu dodi yn ddiddos dros y gauaf. Oblegyd darfu i Fritz gwympo pan yn faban, a derbyn niwed ar ei gefn, yr hwn a berai boen mawr iddo byth oddiar hyny. Ymsuddai ei ben rhwng ei ysgwyddau, ac yr oedd ei goesau yn wan a theneu. Nis gallasai gerdded yn mhell, na gwneyd dim heb flino yn fawr wrth hyny. Ond gwyddai Fritz lawer fwy am adar a blodau, ac fe garai astudiaeth yn well ná'i frawd tal Oscar, yr hwn a'i cymmerai yn aml yn ei freichiau cryfion, ac a'i cariai allan i'r meusydd yn yr haf. Medrai Fritz chwareu y crwth, a cherfio pethau prydferth o goed. Yr oedd ei fysedd meinion yn gwneyd llawer tegan tlws—un yn angel i'w osod yn hen eglwys y llan.

Ar y cyfan, yr oedd Fritz yn blentyn dedwydd, er ei fod yn aml yn dyoddef am ddyddiau, ac yn gorfod aros yn y gwely a gadael i'w fam dyner a'i chwiorydd i ofalu am dano. Fel y dygwyddodd oddeutu yr amser yma, yr oedd yr Awstriaid wedi digio am rywbeth a gyflawnasai Switzerland, ac o ganlyniad bygythient anfon eu byddinoedd mawrion i'r wlad, i danio eu magnelau, a difodi ei chnydiau, a llosgi ei phentrefi heddychol oeddent ar lanau ei llynoedd gleision hi, neu yn nythu yn mhlygion ei mynyddau cribog. Ond un peth oedd brolio ac ymffrostio fel ag y gwnaethai'r Awstriaid, i ddifrodi a gorchfygu pobl ddewr, rhyddid-garol Switzerland, ond peth arall oedd gwneyd hyny. Oblegyd yr oedd y mynyddau mawrion fel mur cadarn o amddiffynfa o amgylch y bobl. Nid peth hawdd oedd dringo y bryniau,

a thynu y magnelau ar eu hol i fyny'r creigiau certh dros yr iâ a'r eira: a mwy peryglys fyth oedd ymladd â'r mynyddwyr dewrion yma ag oeddent mor sicr eu traed â'r geifr, a'r rhai a ruthrent allan ar eu gelynion o ryw gilfach fynyddig, gan osod terfyn ar eu heinioes mewn ychydig amser. Felly, am ganrifoedd, tra'r oedd byddinoedd yn teithio yn ol ac yn mlaen dros Itali deg, dros Ffrainc a Germani, yn gwneyd trefydd mawrion yn gydwastad â'r llawr, yn lladd gwyr, gwragedd, a phlant, ac yn gadael anialwch llosgedig ac annghyfanedd ar eu hol, gorweddai Switzerland yn heddychol, yn dawel a dyogel. Ar yr adeg hon hefyd ni ddywedai Switzerland ddim, ond ymbarotoai i gyfarfod â'i gelyn.

Y peth cyntaf wnaeth y mynyddwyr oedd llusgo coed a thanwydd i ben y mynyddau uchel, a'u crugio ar eu gilydd i wneyd gwyl-dânau. Gosodent wyliwr wrth bob un, a'i ddyledswydd oedd cyneu y coed gynted ag y clywsai neu y gwelsai y gelyn yn ymddynesu, fel arwydd i'r pentrefi i fyned allan a syrthio arno. Aeth wythnosau heibio. Ni welwyd cymmaint ag un o'r Awstriaid; ond er hyny i gyd, ni cheid y Swiss byth yn cysgu. Yr oeddent wedi llanw y ffyrdd i fyny er rhwystro y gelynion i ymdywallt ar eu gwlad. Yr oeddent wedi tori y pontydd a grogent dros nentydd ewynawg, wedi cuddio magnelau tu ol i lwyni a choedydd fel y gallent clwynu rhengoedd y gelyn wrth ddringo i fyny y llwybrau serth neu wrth ymdeithio ar y gwastadeddau odditanynt.

Ar un prydnawn ddydd tesog o haf dywedai Fritz wrth ei fam ei fod yn teimlo mor dda fel yr elai am dro i'r mynydd. A hithau, druan, yn falch ei wel'd e' yn siriol ac yn hapus unwaith etto—oblegyd 'doedd e' ddim wedi bod yn iach am wythnosau—a rhoddodd damaid sych o fara a chaws yn ei boced, cusan ar ei wefus, a dymuniad arno i beidio blino'i human wrth fyned yn rhy bell, a bod yn sicr o ddychwelyd cyn nos, neu y byddai yn bryderus yn ei gylch. Teimlai Fritz mor iach, yr oedd yr awyr mor bur ac adfywiol, fel yr oedd bron a chyrhaedd copa'r mynydd, cyn ei fod yn gwybod hyny. Yr oedd wedi cael ei gario yno ychydig droion yn ystod ei fywyd byr, unwaith neu ddwy yr oedd wedi cerdded yno. Daeth rhyw awydd angerddol arno i wel'd y crugyn coed. Yr oedd wedi bod yn meddwl trwy'r dydd am y rhyfel, beth allasai'r Awstriaid gelyniaethus wneyd—mor arswydus fyddai gwel'd eu cnydiau'n ulw a'u tai yn llosgi, neu, fwy arswydus fyth, gwel'd dynion yn ymlusgo a'r gwaed yn llifo o ryw glwyf yn eu hochr, eu clin neu eu braich, neu yn gorwedd ar ochr clawdd, gyda'u gwynebau gwelw, 'nawr yn edrych tua'r awyr lâs, a'r drylliau wedi syrthio wrth eu hochrau. Yn awr, yr oedd hiraeth am wneyd rhywbeth dros ei wlad wedi blino calon fechan Fritz, a pheri iddo welwi a chlafychu. O! fel yr oedd yn eiddigeddu wrth Oscar dal a chryf pan oedd yn neidio o dwyn i dwyn i lawr i'r pentref, a'i ddryll fel corsen ar ei ysgwydd. Pa'm, pa'm oedd *efe* mor gam a chrwca fel nas gallai roddi help llaw i lusgo'r coed a'r ceryg i lan i'r mynydd fel y plant bach ereill? Och, och! Y cyfan allasai wneyd oedd ymlusgo i edrych ar lanciau'r pentref yn prysur barotoi eu har-

fau ac yn ymddysgyblu ar gyfer yr ysgarmes oedd yn agoshau. Llawer gwaith y cafodd ei fam ef yn tywallt dagrau yn ei ystafell wely fechan. Yr oedd hyny yn trywanu ei chalon hi, oblegyd arferai fod mor dawel a siriol o dan ei holl adfyd. "Cadw galon gref, fy mhlentyn," hi ddywedai'n llawen, "bydd Duw yn sicr o roddi rhywbeth hardd a godidog i ti wneyd, Fritz bach, pan y deui'n fachgen mawr. Allwn ni ddim bod yn filwyr i gyd. Na allwn, mae dy chwiorydd a finau yn gorfod aros gartref. Allwn ni ddim gwneyd llawer dros ein Switzerland. Cymmer galon, 'machgen i; ti wnei rywbeth gwell nâ rhyfela ryw ddiwrnod. Feallai y gwnei ganu caniadau a fyddant yn foddion i arwain dynion i fyw bywydau pur a gwrol, neu gerfio delw o'r Crist sydd i dywys dynion i fod yn debyg iddo." Ac fel mam hi dynai ei llaw yn dyner dros ei ben crymedig, fe'i gwasgai at ei mynwes gariadus, ac fe'i cusanai.

O'r diwedd cyrhaeddodd Fritz ben y mynydd. Yno, yn sicr, yr oedd y tanllwyth, wedi ei grugio ar ei gilydd. Cerddodd oddiamgylch iddo i siarad â'r gwyliwr; ond er ei fawr syndod 'doedd yno neb yn gofalu am dano. Galwodd a gwaeddodd, gan feddwl fod y milwr yn cuddio tu ol i rai o'r llwyni. Nis atebai neb. Yn mhen tipyn, eisteddodd ar graig, a dechreuodd fwyta y crwstyn du a roddasai ei fam iddo; oblegyd yr oedd y daith hir wedi codi chwant bwyd arno. Yna daeth y meddylddrych hapus drosto y byddai efe yn wyliwr hyd nes delai'r un gwirioneddol yn ol; canys daeth i gof Fritz fod y dydd hwnw yn ddydd gwyl, a dywedai Oscar fod y bobl wrth eu bodd yn gwledda yn y pentref. Mor ddedwydd y teimlai Fritz wrth warcheidio y crugyn tanllwyth, wrtho'i hunan, ar ben y mynydd. Yr oedd braidd yn teimlo rhyw ysgefndid yn ei ben wrth feddwl ei fod mor uchel; yn edrych ar yr uchelderau draw, gyda'u copäau claerwynion yn ymgyfeillachu â'r cymmylau; edrych lawr obry ar y llynoedd gleision llonydd, y da a'r gwartheg yn pori ar y dolydd, neu y tai a'r eglwysi a ymddangosent iddo mor fychain â'r teganau yr oedd ef wedi bod yn chwareu â 'nhw yn ei oriau difyr. Aeth awr a rhagor heibio. Weithian, cerddai Fritz o amgylch y tanllwyth anferth, gan gario un ffon fagl ar ei ysgwydd, yr un fath ag oedd wedi gweled Oscar yn cario ei ddryll; bryd arall, eisteddai lawr yn llawen a rhoddai ei bwys ar hen gareg fawr. Dechreuai yr haul ymsuddo, a Fritz, yn anterth ei lawenydd gorfoleddus wrth feddwl ei fod yn filwr gwirioneddol, a ddechreuai synu pryd oedd y gwyliwr yn meddwl dod yn ol.

Aethai y milwr ymaith am awr neu ddwy. Gwaith diflas oedd cerdded wrtho'i hunan ar ben y mynydd. Ni fuasai neb yn ddoethach, a deuai efe yn ol yn union. I feddwl fod yr Awstriaid yn dyfod, pw; ffiloreg i gyd oedd. Dywedai'r bobl fod y rhyfel wedi ei rhoi fyny. Eisteddai Fritz ar y gareg, gan edrych yn ddioglyd ar y mynyddoedd gogoneddus odditano, yr eira ar eu coryn yn awr yn rhosynaidd gan belydrau yr haul ar fachlud. Gwelai y dyfroedd yn syrthio yn rhaiadr mawreddog dros y clogwyn certh, ac yna, ar unwaith yr oedd ei anadl fel yn stopio. Yr oedd llygaid treiddgar y plentyn wedi eu dysgyblu i sylwi yn dda, ac yn awr fe welent—beth? Llinell

ddysglaer arfog ar ddernyn serth o heol yn mhell islaw iddo. Byddin oedd yn ceisio dringo i fyny'r llwybr cul. Dim ond trem yn awr ac eilwaith oedd yn medru gael arnynt, ond gwelai eu cleddyfau yn fflachio yn ngoleuni cochlyd yr haul gogleddol. Neidiodd Fritz ar ei draed. "Yr Awstriaid! yr Awstriaid!!" gwaeddai mewn llais uchel a chrynedig. Yr oedd bron a methu sefyll gan gymmaint ei deimlad. Ond etto ymorchestai â holl nerth ei lygaid i rifo y milwyr. Yn ofer. Yr oeddent fel cysgodion tywyll yn dyfod yn nes, nes trwy y goedwig dew, ac yr oedd eu harfau dur fel afon faith yn gorwedd odditano. "Nhad! Oscar! mae'r Awstriaid yn dyfod!" gwaeddai drachefn mewn gorphwylledd. Wylai bron y fynud nesaf. Allai neb ei glywed; ac O! mor hir y byddai yn hercian lawr i'r pentref i roi y rhybudd. Rhedodd lawr i'r bryn mor gynted ag y gallai ei ddwylaw a'i ffyn baglau ei gario, a chyrhaeddodd y porfeldir cyn iddo ddyfod ato'i hunan. Daeth dafad wâr yn mlaen ato, pan drodd Fritz yn sydyn gan redeg yn ol i'r llwybr serth. Dros sofl a llwyni, trwy ffosydd a drysni, y neidiai Fritz ar ei ffyn ysgafn. Unwaith drachefn y safai wrtho'i hunan yn y tywyllwch ar gopa'r mynydd. Yn mlaen y rhedai at y tanllwyth ag oedd yn ymddyrchafu fel yspryd yn nghaddug yr hwyr. Gyda'chalon ar ymdori o orfoledd diolchai Fritz i Dduw am iddo gofio—am iddo gael nerth i droi yn ol. Yn awr, fe allai efe, er yn grwca ac yn eiddil, wneyd rhywbeth dros ei wlad. Fynud yn rhagor, yr oedd wedi cyneu y gwyl-dân, ac arosai yn awyddus gan wylio y fflamiau yn ymdroelli yn uwch ac uwch o hyd. Yna synai pa cy'd y buasent cyn gwel'd y goleu, ac a gawsai yr Awstriaid amser i ladd rhywrai neu i losgi rhai o'r tai. Dim ond am ychydig fynudau byrion y safodd y bachgen dewr gan wylio yn orfoleddus y fflamiau llosgedig. Yn ddisymwth, dyna ergyd llym o ddryll yn tori ar y dystawrwydd. Un o'r Awstriad, ag oedd wedi crwydro oddiwrth ei fyddin, a welodd y plentyn yn pwyso ar ei ffyn baglau yn ngoleu tanbaid y tân, ac annelodd yn sicr tuag ato. Syrthiodd Fritz i'r llawr a daeth niwl dros ei lygaid; ond cyn i'r milwr Awstraidd gael amser i redeg yn mlaen i ddiffodd y gwyl-dan, dyna ergyd arall yn diaspedain trwy yr awyr, ac yn ei daro. Yr oedd y gwyliwr esgeulus, wrth frysio ar hyd y llwybr twmpathog, wedi adnabod Fritz grwca, ag oedd fel pe wedi ei ogoneddu, yn llewyrch y tân oedd efe wedi ei gyneu. Ond O! daeth foment yn rhy ddiweddar i'w achub ef. Yn hanner gwallgof, ac yn anfoddlon ag ef ei hunan, am ei fod wedi gadael ei *bost* yn y cyfwng cynnil hwn, a bod y plentyn hwn wedi gwneyd ei ddyledswydd drosto, taniodd y milwr Swissaidd, a rhedodd i dywallt ei lid ar yr Awstriad dirmygedig. "Y filen!" meddai'n ffyrnig, "a ydych yn llofruddio plant?" a chododd ei ddryll i'w daro lawr; ond ni ddarfu i'r ergyd ofnadwy syrthio byth. Yr oedd yr Awstriad wedi cwympo wrth ei draed. Diangodd ochenaid grynedig arno. Ar yr un adeg, clywai gwyno gwan gerllaw iddo. Neidiodd i fyny, a rhedodd fel mellten at Fritz, a chododd ei ben. "Fritz, machgen i; wyt ti'n fy 'nabod i? A wyt wedi derbyn niwed mawr, dywed?" "Ydwyf," gruddfanai Fritz yn wan. "O! cymmerwch fi adref.

Feallai y gallaf fyw i wel'd mam. Mi gaiff y fath ofn. Erchodd i mi ddod adref yn gynnar, druan a mam!" Cododd y milwr ef yn dyner yn ei freichiau, a gosododd ei ben ar ei ysgwydd. "Bydd wrol, Fritz," meddai, mewn llais crynedig, "gwnaiff y meddyg di'n iach drachefn. Gwnaf fi dy gario adref, fy mhlentyn, gynted ag y gallaf. Ti gyneuodd y tân i mi, adyn truenus fel yr wyf, i adael ac esgeuluso fy nyledswydd." Cododd Fritz ei ben trwm i ateb, ond ar unwaith gwelai oleuni dysglaer ar ben y mynydd tu arall i'r dyffryn. "O! edrychwch, edrychwch!" gwaeddai mewn llais gwan ond gorfoleddus, "maent wedi gwel'd fy ngwyl-dân i." Y fynud nesaf llewygodd yn farw gan ei boen a cholli gwaed. Ah! pwy all ddirnad trallod y milwr truan hwn, fel y brysiai i lawr i'r bryn. Heb fod yn mheli o gartref Fritz, cyfarfyddodd â'i fam ofidus. Yr oedd wedi myned lawer gwaith, yn ystod yr awr ddiweddaf, ar hyd y llwybr trwy y goedwig, gan waeddi "Fritz, Fritz, fy mhlentyn!" ond yn methu ei wel'd na chlywed dim am dano, yr oedd yn gorfod troi yn helbulus yn ol. Daethai rhyw un, er's awr yn ol, i ganol y pentrefwyr yn eu gwledd a'u difyrwch, gan lefain fod yr Awstriaid yn dyfod. Mewn eiliad rhedai pawb, yn hen ac ieuainc, at eu harfau, ac aethant allan i gyfarfod â'r gelynion. Pwy allasai ddweyd brawd neu wr i bwy a gawsai ei gario adref yn glwyfedig neu yn farw? Clywid swn pellenig tanio. A phan oedd y gwragedd a'r plant yn anterth eu gofid a'u pryder, y daethai mam Fritz ar draws y milwr yn dwyn y plentyn clwyfedig yn ei freichiau. Ah! fam dlawd; mor gynted ag y dygwyd y bychan i'r tŷ, a phan syrthiai y goleuni ar ei wyneb prudd, hi a wyddai nad oedd ganddo yn hir i fyw. Yn dyner, gosodasant ef ar ei wely bychan. Yn ddisymwth, dacth goleuni gogoneddus dros ei wyneb gwelw. Agorodd ei lygaid gleision led y pen. Daeth edrychiad siriol iddynt pan y gwelodd fod ei fam yn plygu drosto. "Mam, mam," meddai'n llawen, "y fi gyneuodd y gwyl-dân. Y mae fel y dywedasoch, mam. Gadawodd Duw fi i wneyd rhywbeth dros Switzerland. Peidiwch llefain, mam, yr wyf fi"—. Yr oedd yr arwr bychan yn huno yr "hun na wyr am ddeffro." Yn mhen dau ddiwrnod ar ol hyny, yr oedd hen eglwys y llan yn orlawn. Ymgasglai'r bobl o bell ac agos iddi, a safent yn finteioedd oddiallan, tra y ceuid yr emyn dros y marw; ac yna, mewn llais crynedig, y dywedai yr offeiriad wrthynt am y plentyn bychan, egwan a gwargam yma, ag oedd wedi achub eu pentref, ac wedi cyfarfod â marwolaeth y merthyr. Mae'n syn i feddwl y darfu i'r Awstriaid i gael eu gyru yn ol, ar ol dwy ysgarmes boethlyd, ac mai Fritz fychan oedd yr unig un o'r pentref y bu rhaid iddo farw marwolaeth y milwr.

J. H. D. o'r *Christian Register.*

Mae yn bosibl ddigon i lefaru am Dduw yn arddercho iawn a meddwl yn wael am dano; i briodoli i'w fodolaeth ymadroddion yn swnio yn uchel, ac i'w lywodraeth egwyddorion ag ydynt yn ei wneuthur yn wrthddrych o gasineb.—*Dr. Channing.*

GEORGE ELIOT AR HUNAN-GARIAD.

Nid ydym yn gwybod am ddim yn fwy atgas nâ bywyd yn cael ei lywodraethu yn gyfangwbl gan hunan-gariad nac am ddim yn arddangos y cyfryw fywyd gyda'i ddiwedd gwaradwyddus yn fwy effeithiol nâ'r desgrifiad o *Tito Melema* gan George Eliot.

Yr oedd Tito yn ddyn ieuanc galluog a phrydferth, ac o ymddygiad hynaws a charedig tuag at bawb; a thua dechreu ei fywyd nid ymddengys fod ganddo un drychfeddwl am gyflawnu unrhyw beth creulon neu isel. Etto nid hir y bu cyn dechreu llithro tua'r goriwaered, a hyny drwy iddo amcanu cilio rhag pobpeth ag oedd yn annymunol, a gofalu am ddim yn gymmaint ag am ei ddyogelwch ei hun. Pan yr oedd wedi dechreu troi mewn cylch pwysig yn Florence, derbyniodd lythyr oddiwrth ei dad yn ei hyspysu ei fod ef wedi cael ei gymmeryd i Antioch yn gaethwas, ac y gellid ei brynu ef yn rhydd â gwerth y gemau oedd yn ei feddiant. Ond nid oedd Tito yn barod i ymadael a'r gemau, teimlai eu bod yn angenrheidiol iddo ei hun er ei alluogi i gadw i fyny y *style* ag oedd wedi ddechreu dori. Dyma dymhor ei "demtiad" wedi dyfod! Sibrwdai y "temtiwr" wrtho, "efallai y bydd dy dad wedi marw cyn y bydd i ti gael gafael ynddo, felly paham y gwnei wario arian i fyned ar ei ol; heblaw hyny, onid dy ddyledswydd di yw ceisio cael y swm fwyaf o bleser i ti dy hunan ac nid gofalu am arall?" Yn anffodus darfu iddo wrando ar lais y "temtiwr" —hunan-gariad—ac anufuddhaodd lais ei gydwybod ag oedd yn galw arno am wneyd ei ddyledswydd tuag at ei dad yn ngwyneb pob rhwystrau. Dyma'r *step* gyntaf tua'r goriwaered yn ei fywyd; ond, fel arfer, profodd hon yn *step* ag oedd i arwain o ddrwg i waeth. Trwy ddamwain darfu i'w dad allu ffoi o'i gaethiwed a dyfod mewn cyffyrddiad ag ef drachefn; ond nid dymunol gan Tito oedd y cyfryw gydgyfarfyddiad, canys teimlai fod presenoldeb y dyn yma, ag oedd yn obeithio oedd erbyn hyn wedi ymadael â'r byd, yn Florence yn ddigon i'w ddwyn ef i ofid a gwarth. Meddianwyd ef gan ddychryn pan gafodd ei hun yn mhresenoldeb y dyn yma, a'r meddwl cyntaf a ymgynnygiodd iddo oedd ceisio ei osod ef allan fel "rhyw wallgofddyn," a diarddel unrhyw berthynas ag ef. Wedi cymmeryd un cam tua'r goriwaered, a throi y glust fyddar i ddymuniad ei dad, yr oedd yn hawdd yn awr i fyned yn mhellach a'i ddiarddel a'i alw yn "wallgofddyn." Ac yr oedd yr ail *step*, yn ei olwg ef, yn angenrheidiol er ei achub ef rhag canlyniadau y cyntaf. Ciliai rhag poen, ac wrth wneuthur hyny cyflawnai weithredoedd a fuasai yn ychwanegu at ei boen yn y diwedd. Yn lle troi o'r llwybrau ag oedd yn dwyn iddo dristwch ái yn mhellach ynddynt, gan ymdrechu gochelyd canlyniad ei ddrwg drwy gyflawnu rhagor o ddrwg. Ond er ei holl ymdrech a'i gyfrwysdra, rhaid oedd iddo, yn gynnar neu'n ddiweddar, ddyoddef canlyniadau poenus ei weithredoedd. Ar ol ymddwyn yn hunanol tuag at ei dad, aeth i ymddwyn felly tuag at ei wraig, ei dad-yn-nghyfraith, a phawb o'i gyfeillion. Nid arbedodd o'r diwedd achosi poen a blinder

i'w wraig—trodd yn anffyddlon i'w addewid tuag at ei dad-yn-nghyfraith,—a bradychodd ei gyfeillion goreu, a hyny i gyd o herwydd iddo geisio cilio rhag pob poen a thrwy hyny gael ei ddewis i gyflawnu drwg ar ol drwg, y naill i arbed y llall. Gwnaeth ei oreu i borthi ei hunan-gariad a chael hunan-ogoniant, pleser a llwyddiant; er hyny i gyd gwarth a thrueni a'i daliodd yn y diwedd . . . . . Ar ol gweled y diwedd truenus oedd yn aros cymmeriad hunanol fel Tito, teimlem fod yr ymddyddan caulynol rhwng *Romola* a *Lillo* yn cynnwys gwers annhraethol bwysig . . . . "Mamma Romola, beth wyf fi i fod?" meddai Lillo. "Beth garech chwi fod fy Lillo?" atebai Romola; "gallwch ddod yn ysgolhaig. Yr oedd fy nhad yn ysgolhaig, fe wyddoch, ac fe ddysgodd i fi lawer. Dyma'r pam yr wyf fi yn gallu eich dysgu chwi." "Ie," meddai Lillo, "ond mae ef yn hen ac yn ddall yn y darlun. A gafodd ef lawer o ogoniant?" "Dim llawer, fy Lillo. Doedd y byd ddim bob amser yn garedig iddo, ac fe welodd ef waelach dynion nag ef ei hunan yn cael eu gosod mewn lleoedd uwch, achos y gallent ragrithio a dweyd yr hyn oedd anwir." "Charwn i ddim y fath fywyd â hwna," meddai Lillo. "Fe garwn i fod yn rhywbeth a wnai fy ngwneyd i yn ddyn mawr ac yn ddedwydd iawn hefyd—rhywbeth na wnai fy rhwystro i gael llawer o bleser." "Dyw hyny ddim yn rhwydd, fy Lillo. Dim ond math o ddedwyddwch gwael ellir gael drwy ofalu llawer am ein pleserau eulion ein hunain. Ni chawn y dedwyddwch uwchaf, o'r fath ag sy'n cydfyned â bod yn ddyn mawr, ond trwy feddiannu meddyliau eang a llawer o deimlad tuag at y gweddill o'r byd yn ogystal a thuag atom ein hunain; ac mae dedwyddwch o'r fath yma yn fynych yn dwyn gydag ef gymmaint o boen fel na fedrwn ei wahaniaethu oddiwrth boen ond trwy ei fod ef yr hyn a ddewisem ni o flaen pobpeth, o herwydd fod ein heneidiau ni yn gweled ei fod yn dda. Mae cymmaint o bethau yn gyfeiliornus ac anhawdd yn y byd yma fel na fedr un dyn fod yn fawr—braidd y medr ef gadw ei hun rhag drwg—oni bydd iddo roddi fyny i feddwl llawer am bleserau a gwobrwyau, a chael nerth i ddyoddef yr hyn sydd galed a phoenus. Yr oedd fy nhad yn berchen y mawredd sy'n perthyn i eirwiredd; efe a ddewisodd dylodi a dinodedd yn hytrach nâ thwyll. A thyna Fra Girolams—yr oedd ef yn berchen y mawredd sy'n perthyn i fywyd wedi cael ei dreulio i frwydro yn erbyn drwg nerthol ac i geisio codi dynion i fyny i'r gweithredoedd uwchaf o fewn eu cyrhaedd. Ac felly, fy Lillo, os ydych yn bwriadu gweithredu yn arddechog, a cheisio gwybod y pethau goreu mae Duw wedi roddi o fewn cyrhaedd dynion, rhaid i chwi ddysgu gosod eich meddwl ar hyny, ac nid ar yr hyn fydd yn dygwydd i chwi o herwydd hyny. A chofiwch, pe baech chwi yn dewis rhywbeth yn is, a'i gwneyd hi yn rheol eich bywyd i geisio eich pleser eich hunan, a gochelyd pobpeth annymunol, gallai trueni ddyfod yr un fath; a byddai yn drueni yn disgyn ar feddwl isel, yr hyn sydd un ffurf o dristwch heb un balm ynddo, a'r hyn a all yn dda wneyd dyn i ddywedyd, 'byddai yn well i fi pe bawn erioed heb gael fy ngeni.'"

W. P.

Y DILUW.

Dyfynir a ganlyn allan o araeth Dr. W. B. Carpenter yn Saratoga: Yr ydych yn ddiau yn adnabyddus o lyfr tra gwerthfawr Dr. W. Smith —Geiriadur y Beibl. Yr oeddwn i yn dygwydd bod yn hyspys o'r dylanwadau oeddynt ar waith yn ffurfiad y geiriadur hwnw. Meddyldrych y Cyhoeddwr a'r Golygydd oedd rhoi cymmaint o Ysgolheigaeth ag a fuasai gyson â cheidwadaeth doeth. Nid oedd dim gwrthwynebiad i fod i Ddaeareg, ond yr oedd yn rhaid dal yn llythyrenol at gyffredinolrwydd y Diluw. Rhoddodd y Golygydd yr erthygl ar y "Diluw" i ysgrifenydd ag yr oedd ganddo ymddiried ynddo; ond, pan ddaeth yr erthygl i law, cafodd ef mor ofnadwy heretic aidd fel na feiddiai ei osod i mewn. Nid oedd dim amser i gael ail erthygl dan y pen hwnw; ac os edrychwch i'r Geiriadur dan y gair "Deluge" cewch gyfeiriad at "Flood." Cyn dyfod i'r gair "Flood" gosodwyd y pwnc yn llaw un a ystyrid yn ddyogel geidwadol. Ond pan ddaeth i law, cafwyd ei fod yn waeth nâ'r cyntaf. Yna ymohebwyd am y trydydd erthygl a buwyd ofalus iawn er sicrhau ei "ddyogelwch." Os edrychwch dan y gair "Flood" yn y geiriadur cewch gyfeiriad at "Noah." Dan yr enw hwn cewch erthygl wedi ei hysgrifenu gan broffeswr enwog o Cambridge, ac yr wyf yn cofio Esgob Colenso yn dywedyd wrthyf ar y pryd am yr erthygl, "Mewn dull cynnil iawn, mae'r ysgrifenydd yn caniatau yr oll."

HYSWIAETH.

"Marriage is all very well, but how about housekeeping?"—Diareb Seisnig.

Mae yr addysg foreuol a ga ein merched ieuainc yn Nghymru mor brin, a'r traddodiadau teuluol yn y cyfeiriad uchod mor arwynebol, fel mai o'r braidd y gellir dysgwyl iddynt fod i fyny i'w cymmydogesau Seisnig fel gwragedd defnyddiol. Credwn y byddai pennod fer yn awr ac eilwaith ar faterion teuluaidd yn sicr o wneyd yr Ymofynydd yn fwy darllenadwy a derbyniol gan y rhyw deg. Bwriadwn y tro hwn alw eu sylw at

LANWEITHDRA.

Llywodraetha y Rheolwr Mawr ei greaduriaid trwy ddeddfau doethion, daionus, a sefydlog. Trwy ddeddfau, llywodraetha lu dysglaer y nefoedd, y môr mawr llydan, a'i donau nerthol, y gwlaw, a thyfiant y ddaear. Rhoddodd ddeddfau i'r corff yn gystal â'r meddwl dynol. Y mae cadw at y deddfau yn sicrhau i ddyn, fendith yn wobr, a melldith yn gosp am eu troseddu. Perthyna i ddeddfau y corff, fwyd a diod, cysgu, ymarferiad, a glanweithdra. Pan droseddir y deddfau trwy fwyta i

ormodedd, yfed yn annghymmedrol, amddifadu y corff o gwsg, ymarferiad corfforol, neu esgeuluso glanweithdra, rhaid dyoddef y gosp gyssylltiedig â'r trosedd.

Y mae a fyno glanweithdra â ni mewn anadlu yr awyr iach a ddarparodd Duw i weithio y peiriant corfforol, a chadw y peiriant yn lân. Y mae gadael pyllau o ddwfr budr, tomenau drewllyd, bwyd moch surllyd, i dywallt eu nwyau afiach i'r awyr a anadlwn, gydag esgeuluso gollwng awyr iach i'n tai a'n hystafelloedd cysgu, i yru y nwy sur creisin ymaith, yn temtio clefydau a'r geri marwol i'n cospi, mor sicr ag i ni droseddu. Ni wna y Bôd Santaidd wyrthiau i ddyogelu troseddwyr ei gyfreithiau da. Pan arweiniodd Moses dair miliwn o bobl, gyda'u gilydd, am ddeugain mlynedd, mor ofalus oedd ar iddynt beidio troseddu cyfreithiau glanweithdra.

Nid yn unig y mae yn rhaid gofalu am awyr iach i'r corff i'w anadlu, ond rhaid hefyd ei gadw yn lân. Rhoddodd Duw natur lanhaol yn y dwfr, y fath gyflawnder o hono, a threfnodd fodd i'w buro wedi i ni ei lygru, er mwyn i ni ei ddefnyddio i gadw ein cyrff a'n dillad yn lân. Y mae y fath rif dirfawr o chwys-dyllau yn y croen, y rhai a ddarparwyd yn gwterydd i gario anmhuredd y corff ymaith, a'r rhai hyn yn carthu mwy o wlybwr niweidiol, nag a gerthir trwy yr holl ffosydd ereill, yn dangos mor bwysig yw cadw y croen yn lân, er cadw y corff yn iach. Pan esgeulusir cadw y croen a'r dillad yn lân, cospir y troseddwr â myrddiynau o greaduriaid byw, bychain, anweledig fel tyrchod, yn mudreddi y croen, nes peri yr ysfa mwyaf annyoddefol, a diorphwys; neu, ynte, daw creaduriaid mwy eu maint i boeni y troseddwr o'i ben i'w draed. Os mynwn ymgadw rhag y gweinyddwyr cospau poenus a chywilyddus hyn, defnyddiwn y dwfr i gadw y croen a'r dillad yn lân. Dianga y llu yna o flaen triniaeth y dwfr, fel locustiaid yr Aifft o flaen y gwynt Gorllewinol cryf.

Mae llawer iawn o bethau cynnorthwyol i ddybenion glanweithdra yn wybyddus ac yn gyrhaeddadwy i wragedd y canolradd a'r pendefigion, na wyr merched llawer ran wledig o Gymru ond ychydig neu ddim am danynt. Galwyd fy sylw yn ddiweddar at briodoleddau yr hylif rhyfeddol a elwir *Ammonia*. Nid wyf yn cofio, ac nid wyf yn meddwl fod enw Cymraeg adnabyddus i'r werin arno. Mae y rhan fwyaf o'n merched yn gwybod am dano hefyd. Efe osodir gyda phethau ereill mewn "*Smelling Bottles*," fel eu gelwir. Gellir cael chwart o "*Concentrated Spirits of Ammonia*," mewn masnachdy Cyffeiriwr (*Druggist*) yn rhad iawn. Dyma y ffurf gryfaf ag y gellir ei gael, a dylid bod yn ofalus wrth dynu y corcyn oddiar y botel i beidio ei anadlu, gan y byddai hyny yn beryglus yn y ffurf bur hono. I barotoi y chwart hwnw er defnydd cyffredin, ac yn gyffelyb i'r hwn a werthir allan gan y Cyffeirwyr, cymmysger ef ag un chwart o ddwfr glân a chwart o *Alcohol*—ceir yr Alcohol, hefyd, yn siopau y Cyffeirwyr. Ie, siwr, *Alcohol*, er cymmaint ag a drinir ar y defnydd rhyfedd hwnw gan rai, y mae iddo ef ei wasanaeth. Nid ar yr *alcohol* y mae y bai; ond ar ddyn—y dyn gwan, esgeulus, ffol, a gwamal, sydd yn ei gamddefnyddio. Os na ellir *defnyddio* yr *Ammonia* yn briodol, gwell ei adael

yn y siop. Ar ol gwneyd y cymmysgedd yn barod fel y nodir uchod, gosoder ef mewn *jar*, gan ei "chorcio" yn dyn. Yna gellir ei ddefnyddio at y pethau canlynol :—

I symmud ysmotiau o saim oddiar ddillad o yn agos pob defnydd, oddiar *garpets*, &c. Ni fydd iddo niweidio y lliwiau mwyaf llednais. Dylid swilio y defnydd ar ol defnyddio yr *Ammonia* ag ychydig o Alcohol pur a digymmysg. I symmud ysmotiau o *Ink* oddiar *marble*, celfi coed, a phapyr. Rhwbier yr ysmotiau yn aml hyd nes y deuont ymaith. I lanhau y gwallt, nid oes dim yn debyg iddo. Gosoder ychydig o ddiferynau yn y dwfr y bydder yn golchi y gwallt ynddo, gan ei "swilio" yn dda wedi hyny mewn dwfr pur, oer neu dwymn. I lanhau ysmotiau o *Ink* oddiar y bysedd. I lanhau sidan du, gwell peidio ei ddefnyddio at un lliwiedig: Gosoder ychydig ddiferynau o hono mewn llonaid llwy fwrdd o *Alcohol* pur, gan "*spungo*" y sidan drosodd, a'i "swilio" wedi hyny â dwfr pur. I lanhau llestri dysglaer, megys arian, &c. Golcher y llestri â dwfr a sebon yn gyntaf, yna rhwbier hwy â'r ddarpariaeth a nodwyd, sycher hwy â napcyn sidan, a rhwbier hwynt â "*Shammy leather*." Deuant mor ddysglaer â phe byddent yn newydd. I lanhau gwydr o bob math, megys Drychau, ffenestri, &c., nid oes ei debyg.

Dyna rai o lawer o'r galluoedd a fedd y defnydd rhyfeddol hwn, ag ystyried y swm fechan a gostia tri chwart o hono, barnwn na ddylai un wraig yn Nghymru fod hebddo.—C.

Manion a Hanesion.

CADWYD Cylchwyl yr Ysgolion Sul canlynol eleni yn nghapel newydd y Cwrnewydd ar ddydd Llun, Mehefin 11eg. Dechreuwyd Cyfarfod y bore am ddeg gan weinidog y lle. Wedi myned trwy y rhan ddefosiynol a chanu mawl, adroddodd ysgol y lle y ddegfed bennod o efengyl Ioan ; a holwyd hi gan y Parch. William Davies, y Cribin. Cariwyd allan eleni y cynllun a osodwyd i lawr o'r blaen, nad oedd un ysgol i gael ei holi gan ei gweinidog ei hunan. Mae lle hefyd i gredu yn ol fel yr aeth yr ysgolion trwy eu gwaith, y bydd yn fwy o fantais iddynt, ac y cedwir ato yn y dyfodol. Ar ol yr ysgol hon adroddodd ysgol Ciliau y 13eg bennod o Luc, a holwyd hi gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a therfynwyd gwaith y boreu. Yna fe aeth pawb i rywle i gael lluniaeth, yr hwn oedd wedi ei barotoi yn helaeth yn y capel a'r gymmydogaeth. Dechreuwyd cyfarfod y prydnawn trwy adrodd pennod gan un o ysgol y Cribin, a gweddi gan W. Rees, Rhydygwin. Yna adroddodd ysgol y Cribin y 15 bennod o Efengyl Ioan, a holwyd hi gan J. Davies, Alltyplaca. Ar ei hol adroddodd ysgol Rhydygwin y 9fed bennod o Fathew, a holwyd hi gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Nid wyf yn ystyried yn iawn pe gallwn roi barn pa un o'r ysgolion oedd yn adrodd oreu, neu yn canu ac ateb oreu. Pe anturiai fy nghymhwysach i wneyd hyny, byddai yn llawer tebygach o roi mwy o dramgwydd nag o adeiladaeth. Yr oedd ol llafur ar y canu, adrodd, ac ateb pob ysgol. Cawsom gyfarfod da. Dangosodd pob ysgol fod digon o dalentau ynddi i'w gwneyd yn fwy defnyddiol a'i rhif yn llawer mwy. Cofied pob ysgol mai mewn undeb mae nerth, ac mae trwy ymdrechu a chydweithredu mae llwyddo. Duw a fendithio bob ymdrech i wneyd ein hysgolion yn allu er daioni yn ein plith, a'i dangnefedd fyddo'n gorphwys arnynt.

Cyhoeddwyd fod y gymmanfa i fod yn Ciliau y flwyddyn nesaf.—UN OEDD YNO.

MAE Prif Athraw *Training College* yn Nghaernarfon, sydd yn cael ei gynnal ar draul y cyhoedd, wedi gwrthod derbyn un myfyriwr i'r coleg yn unig am ei fod wedi ei fedyddio gan annghydffurfiwr. Penderfyniad y *College Committee* oedd fod y myfyriwr yn *eligible;* a'r hyn a ddywed Mr. Mundella yw, nad yw y prif athraw ddim yn addas i'r swydd sydd ganddo.

PAN ddygwyd y mesur dros ganiatau i ddyn briodi chwaer ei wraig (pan fyddo ei wraig wedi marw) gerbron "Ty yr Arglwyddi," pleidleisiodd y ddau archesgob a 22 o'r esgobion yn erbyn y mesur, a dim un drosto. Safai y pleidleisiau 165 dros, 158 yn erbyn. Mae wedi pasio Ty y Cyffredin lawer gwaith o'r blaen gyda mwyafrif mawr, tebyg iawn y pasir y mesur cyn hir yn awr.

YR ydys yn nghanol twrw mawr yn Rhosllanerchrugog, am fod y Ficer wedi mynu cyssegru y *Cemetery* yn erbyn dymuniad pendant y tretbdalwyr. Yr oedd pleidlais y vestry 350 i 4 yn erbyn. Nid oedd y Ficer wedi rhoi un hyspysrwydd i'r Esgob sut oedd pethau yn sefyll.

GWNAETHPWYD ymdrech galed gan Annghydffurfwyr Uckfield yn Sussex, i gael dim ond un capel yn y *Cemetery* newydd. Collwyd y dydd ganddynt. Yr oedd y bleidlais yn eu herbyn 54 i 34 ar y 10fed o Fai.

MAE offeiriad Oswaldtwistle wedi gwrthod claddu plentyn annghydffurfiwr ar y Sul heb wasanaeth yr Eglwys. Mae deddf 1880 yn caniatau hyn iddo, ond sylwer nad yw yn gwrthod claddu plant Eglwyswyr ar y Sul.

DYLAI pob un a allo ddarllen araeth ardderchog Mr. Bright yn Nghapel Spurgeon. Gellir ei chael am geiniog.

NID yw Ficer St. Andrew-the-Less wedi darllen y Mesur Claddu yn ddigon gofalus. "Drwg genyf" meddai, "nas gall yr angladd gymmeryd lle ar y Sul yn ol yr Act. Gall fod, os mynwch ar y Llun." Nid yw yr Act yn dywedyd dim o'r fath.

DYWED un ei fod yn tybied na ddylai fod gan yr offeiriad hawl i benderfynu amser claddu yn ol ei fympwy ei hunan. Dywed ei fod wedi gweled angladd ar y fynwent am chwech yn y boreu; y galarwyr wedi cael eu cadw yno trwy y nos. Tybia hefyd y dylai y tal claddu fod yn unffurf. Yn un plwyf y mae yn £1 3s. 4c., mewn un arall yn £14.

TRIOEDD.—Tri pheth i'w gwneuthur—meddwl, byw, a gweithredu.

Tri pheth i'w llywodraethu—eich tymher, eich tafod, a'ch ymddygiad.

Tri pheth i'w meithrin — rhinwedd, doethineb, a daioni.

Tri pheth i'w caru—gwrolder, mwyneidd-dra, a serch.

Tri pheth i ymdrechu drostynt—anrhydedd, gwlad, a chyfeillion.

Tri pheth i'w cashau — creulonder, gormes, ac anniolchgarwch.

Tri pheth i'w dysgu—gwirionedd, diwydrwydd, a boddlonrwydd.

Tri pheth i'w hedmygu—deall, urddas, a graslonrwydd.

Tri pheth i'w hoffi—serchogrwydd, daioni, a sirioldeb.

PRIODASAU.

Mai 24, yn Nghapel Brondeifi, Llanbedr, gan y Parch. R. C. Jones, David Thomas Davies, King's Head, Llanbedr, a Jane Lewis Rees, Eurfaen Hall, o'r un lle.

Mai 25, yn Nghapel Brondeifi, Llanbedr, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, John Jones, Maesfelinfach, a Rachel Davies, Cilgwynuchaf, Llangybi.

Mehefin 16, yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, gan y gweinidog, Mr. Joshua Jones, a Miss Gwen Williams.

Marwgofion.

Chwefror 21, yn Tróedyrhiw, Ystrad, yn nhy ei fab-yn-nghyfraith, David Evans, gynt o Bwlchgwernen, yn 83 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn a gerid gan bawb a'i hadwaenai. Profodd trwy ei oes hir, ei fod yn caru geirwiredd ac onestrwydd yn fwy nâ ffafr dyn. Trwy hyny, cai ei air ef ei dderbyn bob amser gan bawb oedd yn ei adnabod. Efe oedd yr aelod henaf o gynnulleidfa Rhydygwin, a'r olaf, feddyliwn, o'r rhai a fu yn aelodau rheolaidd yn y

hen addoldy yn Ystrad. Fe welodd bwys y dydd a'i wres. 'Roedd llawer o wrthwynebu ac erlid ar Undodiaeth yn y gymmydogaeth yn ei amser ef. Gellir dweyd iddo ymdrechu ymdrech deg ac iddo gadw ei ffydd. Bydded i'w blant a'i wyrion efelychu ei rinweddau. Ar ddydd ei angladd pregethodd W. Rees, Rhydygwin, yn y tŷ, a chladdwyd ef yn nghladdfa plwyf Trefilan.

Ionawr 26ain, 1880, yn 22 oed, John Howells, wyr iddo a mab Samuel a Margaret Howells, Brynog Arms, Ystrad. Yr oedd yn ddyn ieuanc hawddgar, a buasai yn debyg o fod yn ddyn defnyddiol pe cawsai oes. Pregethodd W. Rees, Rhydygwin.

Ebrill 1, Mary, merch Mary Davies, Felinfach, Ystrad, yn 23 mlwydd oed, o'r ddarfodedigaeth ar ol hir nychdod. 'Roedd wedi bod ar wasanaeth er yn ieuanc iawn, ac am beth amser yn Llundain lle collodd ei iechyd. Rhodiodd yn weddaidd trwy ei hoes fer, a cherid hi gan bawb a'i hadwaenai. Bu yn ddefnyddiol i gymdeithas yn y cylch oedd hi yn troi ynddo. Bydded hyny fod yn gyssur i'w mam a'i brodyr a'i chwiorydd, ac na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith. Ar ddydd ei hangladd pregethodd W. Rees, Rhydygwin, a chladdwyd hi yn Ystrad, yn mynwent y plwyf.

Ebrill 8fed, Evan Evans, Pensarnfach, Ystrad, yn 68 mlwydd oed, o'r ddarfodedigaeth. Gadawodd weddw a thri mab mewn galar ar ei ol. Teimla y gymmydogaeth yn gyffredin golled ar ei ol. Yr oedd yn gymmydog da, parod iawn i roi cynnothwy lle gwelai angen. Pregethodd W. Rees, Rhydygwin yn y tŷ. Claddwyd yn Dihewid.

Ebrill 29, Mr. Morgan Morgans, Penderyn, yn 75 oed. Yr oedd Mr. Morgans yn hanu o deulu parchus, ac wedi treulio y rhan fwyaf o'i oes yn Llwynonn. Perchid ef am ei gymmeriad dirodres, ei addfwynder, a'i gywirdeb. Yr oedd yn aelod gyda'r Undodiaid yn Hen-dy-Cwrdd y Cefn, ond o herwydd henaint a phellder ffordd, anfynych yr oedd yn gallu presenoli ei hunan yn yr addoliad. Dydd Iau canlynol, claddwyd ef yn mynwent Eglwys Penderyn, pryd y darllenwyd ac y gweddiwyd yn y ty gan J. H. Davies, Cefn, ac yn yr eglwys gan gurad y plwyf. Duw fo'n nerth i'r weddw.

Ebrill 30ain, ar enedigaeth plentyn, Mrs. Anne Griffiths, Llechwedd-deri-isaf, yn 38 mlwydd oed. Gadawodd yr ymadawedig briod a naw o blant, yn nghyd a pherthynasau ereill i alaru ar ei hol. Fel y mae ffyrdd y tad daearol yn annealladwy yn aml i'w blentyn, felly hefyd yn aml ffyrdd y Tad o'r nef i ni yn bresenol. Ond mae'r oll o ffyrdd Duw yn sicr o fod yn uniawn. Daw'r dydd pan y cawn ni weled cyssondeb ei holl drefniadau. Ar y dydd Gwener canlynol daeth torf anarferol fawr i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref yn mynwent Caeronen. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D. R. Williams, Llanbedr, a chymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Evans, Abermeurig; Evans, Llangybi; Jones, Llanbedr; a Thomas, Llanfair. Nerth gaffo'r galarwyr oll i alaru'n gymmedrol.

Mai 7, David Davies, Llainmanal, yn 71 mlwydd oed. Yn y ty ar ddydd ei angladd, pregethodd B. Phillips, Tynygwndwn, yn bwrpasol ar yr amgylchiad. Dygwyd ef gan dorf luosog o bobl i fynwent Ystrad, lle y claddwyd ef mewn gwir ddyogel obaith am adgyfodiad i fywyd gwell. Addewidion yr efengyl fyddo yn gysur ac yn nerth i'w weddw a'i blant yn wyneb yr ysgariad.

Mai 11eg, 1883, Timothy Evans, ail fab Anthony a Mary Evans, Ty-Hywel, plwyf Pencareg, yn Sir Gaerfyrddin, ar ol ychydig ddiwrnodau o gystudd poenus anarferol o enyniad yr ymhenydd yn 31 oed. Tueddwyd Timothy i gymmeryd iau Crist Iesu arno pan yn mlodau ei ddyddiau, bwriodd ei goelbren yn ein mysg pan yr ymgorffolodd achos bychan Tyn'rheol y Ram i fod yn Eglwys, yr hon a ymddadblygodd wedi hyny i ffurfio Eglwys Bron-Deifi. Cafodd ei dderbyn yn Tyn'rheol yn aelod yn mis Medi 27, 1874. Ei nodwedd, yr oedd yn fachgen ieuanc na fedrai lai nâ dangos pa ochr y byddai yn ddidderbynwyneb. Cyfrifid ef yn un o'r rhai mwyaf diniwed drwy yr holl wlad. Yr oedd o duedd gymdeithasgar, hwylus, a llawen, ac yn dyner a hawddgar ei deimladau. Ciliai yn mhell oddiwrth bob drygioni, a diau ei fod yn feddiannol ar y "rhan dda." Ymgysured ei rieni, a'i frawd a'i chwiorydd, yn y gobaith gwynfydedig o gael cydgwrdd ag ef etto ar fyrder yn y "wlad well" a hono yn un nefol. Claddwyd ef yn mynwent Caeronen, a gweinyddwyd gan y Parch. R. C. Jones.—TEIFIWYSON.

Mai 18, yn ddisymwth ac mewn modd torcalonus, trwy syrthio o dan gerbydau ar *incline* perthynol i weithiau glo Cyfarthfa, bu farw Thomas Jones, mab hynaf William a Hannah Jones, Cefncoed, yn 13 oed. Darfu i olwyn un o'r cerbydau fyned dros ei glun a'i fraich, gan eu briw-

io'n enbyd; bu fyw am ychydig amser, ond bu farw cyn cyrhaedd ty ei dad. Yr oedd yn blentyn henaidd iawn ei ffordd, a rhywiog i ddysgu. Yr oedd bob amser yn y cwrdd a'r Ysgol Sul yn Hen-dy-Cwrdd, a theimlir colled ar ei ol. Cydymdeimlir yn ddwys a'r rhieni yn eu galar ar ol eu bachgen, yr hwn a gollasant yn annysgwyliadwy pan oedd wedi dechreu dyfod yn ddefnyddiol ac o gynnorthwy iddynt. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn mynwent yr Hen-Dy-Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan J. H. Davies.

Mehefin 3ydd, yn 9 mis oed, baban Thomas a Mary Jonathan, Fronfedw. Yn y ty ar ddydd ei angladd, pregethodd W. Rees, Rhydygwin, a chladdwyd ef yn mynwent Dihewid. Bydded yn gysur i'w rhieni yr hyn a ddywedodd yr Iesu am blant bychain.

Mehefin 6, Samuel Howells, Saer meini, Troedyrhiw, gynt o Lloydjack Arms, Ystrad, yn 63 oed. Gadawodd ar ei ol weddw a 9 o blant i wynebu ar y byd heb gynghor na chynnorthwy tad mwy. Bydded iddynt ymddiried yn Nhad y weddw a'r amddifaid yr Hwn sydd etto'n fyw, yr hwn sydd hefyd yn addaw nerth yn ol y dydd i'r sawl sydd yn rhoi eu pwys arno. Cerid ef trwy y gymmydogaeth gan bawb o'i gyd weithwyr, a rhoddai ei feistr, Cadben Vaughan, Brynog, ymddiried mawr ynddo fel dyn cywir a geirwir. Nid hoffai ymyraeth a'r hyn nad oedd yn perthyn iddo, na drygu neb. Bu yn wasanaeth y boneddwr uchod am lawer o flynyddoedd. Yn y ty ar ddydd ei angladd, pregethodd W. Rees, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Ystrad, lle yr oedd wedi claddu mab mewn oed o'i flaen. Duw a'r efengyl fyddo yn cysuro ac yn dyogelu ei weddw a'i blant.

Mehefin 9, yn 3, Green Villas, Cwmbach, yn 73 oed, William, unig frawd Mr. Thomas Thomas, Cefnpennar Uchaf, Aberdar. Dyoddefodd yr hen gyfaill gonest a didwyll hwn gystudd maith a thrwm yn amyneddgar cyn canu yn iach i'r fuchedd hon. Hebryngwyd ei gorff i'r bedd yn y Cemetery gan amryw o'i hen gyfeillion a'i berthynasau y dydd Mawrth canlynol. Gweinyddwyd ar yr amgylchiad gan weinidog yr Undodiaid yn y lle.

Mehefin 15, yn sydyn iawn, yn Providence Place, Cwmbach, Aberdar, yn 76 oed, Amy Davies. Chwythodd llawer o awelon croes dros ben yr hen chwaer hon yn ystod ei hoes hirfaith. Bu yn weddw amddifad a phur ddiamgeledd am lawer iawn o flynyddau. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn y Cemetery. Yr oedd ei hanglad yn un bur luosog. Gweinyddwyd yn y cyfryw gan E.W.L.

YR AFONIG.

O dywed, dywed imi,
O ble o ble y cyrchi
Y fwyn afonig fach?
Mae'th ddwndwr braidd yn bruddaidd,
A'th rediad yn arafaidd—
Yw'th galon di yn iach?

Fe'm ganwyd yn y mynydd;
Fy mamaeth oedd cafodydd
Mis Ebrill mwyn a Mai;
Fy nghawell oedd y ffynnon
Lle'n brudd rhwng blodau gwylltion
Y suai'r awel chwai.

Un boreu hyfryd dysglaer
Ar funyd o ysgafnder
Yn ffol y ffoais ffwrdd;
A thrwy y dydd yn heini
Ymbrancio dros glogwyni
Yr es yn gwneuthur twrdd.

Ac yna, rhwng ceulanau
'R ymdreiglais, lle'r oedd blodau
'N arogli, fyrdd a mwy;
Ac ataf rhai'n ymblygent,
A'u mel-wefusau'm denent
I aros gyda hwy.

Mae'r amser hapus drosodd,
Mae'm rhediad 'nawr yn rhywfodd
Yn dywyll a di hedd;
'Rwy'n gwel'd y môr-ororau
'Rwy'n clywed swn ei donau
Ac yno mae—fy medd!

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—Mrs. W., London; J.J., Hirwain Road; A.W.J., Morris Run; D.E., Talley; T.H., Clettwr Fach; D.T., Treorci; T.Ll., Porthcawl.

D.S.—Drwg genyf fod yr olaf wedi diane heb ei gydnabod yn ein rhifyn diweddaf.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Ye Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

TRYSORFA I GYNNORTHWYO DYNION IEUAINC, &c.

TANSGRIFIADAU.

	£	s.	c.
St. Clears per Mrs. Philips	0	15	0
Caeronen, per R. C. J.	0	9	0
Mrs. Jenkins, Rhydybenne	0	5	0

D.S.—Yr Ysgrifenydd yw y Golygydd. Taer wahoddir Tansgrifiadau newyddion.

EMYNAU MAWL A GWEDDI.

Mae yr ail argraffiad yn mron bod yn barod. Ei bris, 2s. mewn papur, 2s. 6c. mewn llian. Anfonir ef yn rhydd trwy y post am y prisoedd hyn.

CAPEL NEWYDD LLANDYSSUL.

Derbynir y rhodd leiaf at yr achos uchod, a chydnabyddir yn ddiolchgar ar yr amlen hon gan yr Ysgrifenydd—*Rev. W. James, B.A., Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

Tanysgrifiwyd a sicrhawyd eisoes.

	£	s.	c.
Cydnabyddwyd eisioes ..	803	15	0
J. Jones, Merchant, Tonypandy	1	0	0
Mrs. O. Evans, Cefncoed, Merthyr	5	0	0
G. W. Potter, do. do. ..	2	2	0
Frank James, Merthyr ..	2	2	0
Gwilym C. James, do. ..	1	1	0
C. R. James, do.	1	1	0
Mrs. Davies, Temple of Fashion, do.	0	10	6
Mrs. Stephens, do.	0	5	0
Thos. Thomas, Ironmonger, do.	1	1	0
Chas. H. James, M.P., do. ..	2	2	0
D. Evans, Troedyrhiw, do. ..	1	1	0
J. Isaacs, Bedwellty	5	0	0
Miss Isaacs, do.	5	0	0
Mrs. Johns, Merthyr ..	0	5	0
Mrs. Thomas, Cefncoed ..	0	2	6
Messrs. Phillips & Evans, Merthyr	0	5	0
D. Charles, Penewarre, Llandyssul	2	0	0
J. Evans, Newcastle Emlyn ..	1	1	0
"Cyfaill," Llandyssul ..	3	0	0
Jas. Jones, Llandyssul ...	0	15	0
H. P. Cobb, Harrow	20	0	0
Mrs. Hunter, Oxford	1	1	0
B. Stephens, Lodge, Llanfihangel	0	2	6
D. Price, London	25	0	0
Anne Jones, Camnant, Llandyssul	0	2	6
Swm o dan 2s. 6c.	0	1	0

W. JAMES, Ysgrifenydd.